Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Olchfa**
**Gower Road**
**Sgeti**
**Abertawe**
**SA2 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Olchfa

Ysgol gyfun gymysg 11-18 wedi'i lleoli yng ngorllewin Abertawe yw Ysgol Olchfa. Mae 1,700 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 357 yn y chweched dosbarth, sydd ychydig llai nag ydoedd adeg yr arolygiad blaenorol yn 2011. Mae gan yr ysgol gyfleuster addysgu arbenigol ar y safle sy'n darparu ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw.

Mae ychydig dros 6% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae ychydig llai na 10% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan ryw 12% o ddisgyblion angen addysgol arbennig, ac mae gan 1.7% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ddau ffigur hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 21.5% a 2% yn y drefn honno. Daw bron i chwarter o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, ac mae ychydig dros 20% yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2001. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, pum pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig, dulliau arloesol o gynllunio’r cwricwlwm a gwella ansawdd yr addysgu, a ffocws cyson ar ddatblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac uchelgeisiol wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau deilliannau cyson gryf a lefelau lles uchel ar gyfer disgyblion yn Ysgol Olchfa.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau eithriadol o gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn ymddwyn yn gwrtais, yn barchus ac yn aeddfed. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig, uchelgeisiol a gwydn. Ceir lefelau uchel o gyfranogiad disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Nodweddir trefniadau arwain gan lefelau cryf o gadernid a thrylwyredd ar bob lefel. Mae gan yr ysgol ffocws cryf ar fyfyrio ac ymchwil ac mae dysgu proffesiynol wrth wraidd ei gwaith. O ganlyniad, mae gan staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r blaenoriaethau gwella, ac mae gan yr ysgol hanes cryf mewn ysgogi gwelliant.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob un o’r athrawon yn defnyddio technegau holi cyson effeithiol i herio meddwl disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio, arfarnu a gwella’i chwricwlwm ‘iLearn’ yn barhaus, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Rhagorol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus ac uchelgeisiol yn eu dysgu. Maent yn dangos llawer o ymrwymiad i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwersi. Dangosant eu bod yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda i gyd-destunau newydd a heriol. Er enghraifft, defnyddiant eu gwybodaeth gyd-destunol am yr Unol Daleithiau yn y 1920au wrth ystyried y newid yn rôl menywod mewn cymdeithas Americanaidd, ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o egwyddorion gwaith tîm effeithiol wrth ddatblygu eu medrau mewn pêl fasged.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn hynod gryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn effeithiol mewn trafodaethau dosbarth yn ogystal â gwaith grŵp a gwaith pâr, a defnyddiant derminoleg bwnc yn gywir ac yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio termau fel trosiad, personoli, cyflythrennu a sain ffrithiol mewn ystod eang o drafodaethau am effeithiolrwydd yr ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu, datblygu a chefnogi syniadau ei gilydd yn dda mewn gweithgareddau cydweithredol, er enghraifft pan fyddant yn cynnal trafodaethau grŵp, yn trafod gwahanol ddehongliadau canlyniadau arbrawf gwyddoniaeth, a phan fydd disgyblion Blwyddyn 7 yn arddangos lefelau uchel o aeddfedrwydd, empathi a sensitifrwydd wrth drafod sut i ddangos caredigrwydd at eu cyfoedion. Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad eithriadol o gryf o ystod eang o eirfa bwnc a gwnânt gyfraniadau hynod aeddfed, soffistigedig a chraff at drafodaethau. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwneud ystod o bwyntiau meddylgar a thra datblygedig wrth gymharu profiad gwylio theatr fyw a chyfryngau electronig.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau darllen cryf a gallant ddethol a dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym ac yn hyderus o ystod o ffynonellau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar ystod eang o strategaethau darllen, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol pan fyddant yn wynebu geiriau anghyfarwydd. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio rhesymu'n dda wrth ddehongli testunau a gwnânt gasgliadau craff, er enghraifft wrth ddadansoddi nodweddion cymeriad mewn cerddi a storïau. Gallant nodi nodweddion allweddol gwahanol fathau o destun yn hyderus. Gall llawer o ddisgyblion nodi ac esbonio technegau awdurol amrywiol mewn ysgrifennu ffuglennol a ffeithiol, a gallant esbonio'n glir eu heffaith ar y darllenydd. Er enghraifft, maent yn dadansoddi'r gwahanol dechnegau perswadiol a ddefnyddir gan hysbysebion elusennau neu'n ystyried y defnydd o ragfynegi, camsyniad teimladol, a throsiadau estynedig yn 'Frankenstein'. Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar fedrau darllen tra datblygedig ar lefel uwch, a gallant grynhoi, cyfosod a chategoreiddio ffactorau amrywiol o ystod o ffynonellau. Mewn daearyddiaeth, er enghraifft, mae disgyblion yn dadansoddi ystod o ffynonellau aml-gyfrwng i arfarnu effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol corwyntoedd ar wahanol wledydd.

Mae cywirdeb technegol ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn ysgrifennu â synnwyr cryf o ddiben a chynulleidfa mewn ystod eang o arddulliau, ac yn mynegi eu hunain ag eglurder. Mae hyn yn cynnwys ysgrifennu perswadiol ac empathig sy'n cefnogi safbwyntiau'r Swffragetiaid, arfarniadau o waith arlunwyr a darnau rhesymiadol i arfarnu llwyddiant Masnach Deg. Mae'r disgyblion hyn yn

strwythuro eu hysgrifennu estynedig yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig â llawer o soffistigeiddrwydd, aeddfedrwydd a rhuglder a gwnânt ddefnydd da o strwythurau brawddeg amrywiol ac atalnodi i wella effeithiolrwydd eu gwaith, er enghraifft wrth lunio darnau hynod wreiddiol a difyr o ysgrifennu disgrifiadol a naratif.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhifedd cryf. Defnyddiant y medrau hyn yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Maent yn casglu, dadansoddi a dehongli data yn drylwyr ac yn feddylgar, a defnyddiant y wybodaeth hon i lunio casgliadau rhesymedig. Er enghraifft, maent yn cynnal arolygon ar arferion bwyta disgyblion eraill, yn arfarnu pa mor iach yw eu diet, ac yn cyfrifo amrediad, canolrif ac amrediad rhyngchwartel meintiau cerrig bach wrth ymchwilio i nodweddion allweddol erydiad afonydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau datrys problemau tra datblygedig ac yn mynd i'r afael ag ystod eang o broblemau bywyd go iawn yn hyderus. Er enghraifft, maent yn cyfrifo'r gymhareb fwyaf priodol o gynhwysion mewn rysáit cawl sgwosh cnau menyn ac yn defnyddio dull loci i ganfod y ffordd fwyaf effeithlon o gasglu gwartheg ynghyd. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy ddefnyddio ystod o feddalwedd i ddylunio cynhyrchion technoleg a defnyddio taenlenni i ymchwilio i b'un a oes unrhyw gydberthynas rhwng rhychwant llaw a maint esgid. Dangosant lefelau cryf o ddawn greadigol a gwreiddioldeb mewn llawer o agweddau ar eu gwaith, er enghraifft pan fyddant yn rhagdybio sut bydd naratif cerdd yn datblygu neu pan fyddant yn cynllunio eu 'sioe gerdd jiwcbocs' eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg. Maent yn ynganu'n gywir ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn creu darnau estynedig wedi'u hysgrifennu'n dda yn Gymraeg. Yn 2017, enillodd llawer o ddisgyblion gymhwyster lefel 2 yn y cwrs llawn TGAU Cymraeg.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn gyson gryf yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, gan gynnwys y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a throthwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhell uwchlaw disgwyliadau. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae hefyd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae perfformiad bechgyn, merched a disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol iawn â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg. Mae pob grŵp o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o gyfnodau allweddol blaenorol. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Yn y chweched dosbarth, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A* neu A ymhell uwchlaw'r gyfran mewn ysgolion tebyg yn gyson. Mae sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach disgyblion a'r gyfran sy'n ennill tair gradd A*-C wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2017, fodd bynnag, bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn y ddau ddangosydd, ac mae bellach yn cyd-fynd â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos safonau cyson uchel ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae ganddynt wybodaeth bwnc gref iawn, y maent yn ei chymhwyso'n hyderus i gyd-destunau newydd a heriol. Mae'r disgyblion hyn yn hynod huawdl a

gwnânt gyfraniadau meddylgar a chraff at drafodaethau. Er enghraifft, mewn llenyddiaeth Saesneg, mae disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth fanwl am fywyd a gwaith Philip Larkin i lunio dadansoddiad soffistigedig o'r delweddau a'r cyfeiriadau yn 'Dockery and Son', wedi'i gefnogi gan gyfeiriadau penodol a pherthnasol at gerddi eraill y maent wedi'u hastudio.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae disgyblion yn ffynnu yn amgylchedd gofalgar, cefnogol a chynhwysol Ysgol Olchfa. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu a medrau cymdeithasol datblygedig yn eu dysgu a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol. Mae perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus rhwng disgyblion a staff yn cyfrannu'n sylweddol at lefelau lles uchel.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar, yn gwrtais ac yn barchus. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn aeddfed â staff, cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos ymddygiad eithriadol o dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau rhagorol at eu dysgu, a dangosant falchder mawr yn eu gwaith. Maent yn ddysgwyr penderfynol ac uchelgeisiol sy'n wydn pan roddir tasgau heriol iddynt, a dangosant annibyniaeth wych ym mhob gweithgaredd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod effeithiol mewn gwaith pâr neu waith grŵp. Mewn gweithgareddau ar y cyd, maent yn gwrando'n ofalus ac yn barchus ar ei gilydd ac yn cynnig cymorth aeddfed a sensitif ac yn herio syniadau eu cyfoedion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dra datblygedig o ystod eang o faterion moesegol a byd-eang.

Ceir lefelau uchel o gyfranogiad gan ddisgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol a brwdfrydig mewn gwneud penderfyniadau. Maent wedi bod yn ddylanwadol o ran gwneud newidiadau i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a'r cwricwlwm 'iLearn', er enghraifft. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn dda mewn ystod eang o grwpiau cynrychioliadol fel 'Lleisiau Olchfa' a'r 'Grŵp Llywio Hawliau'. Mae'r cymorth y bydd disgyblion yn ei roi i'w cyfoedion yn nodwedd gref yng ngwaith yr ysgol. Mae 'cyfeillion' chweched dosbarth yn helpu disgyblion iau i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac mae grŵp 'CHAT' yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion eraill ynglŷn â materion personol a chymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae lefelau uchel o gyfranogiad yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol, fel sesiynau ar ôl yr ysgol yn 'Calon', sef campfa'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos lefelau cryf o ddawn greadigol, yn eu gwaith dosbarth a thrwy gymryd rhan yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol diwylliannol, fel cynyrchiadau cerddorol a'r clwb ysgrifennu creadigol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae addysgu yn rhagorol ac yn gwneud cyfraniad cryf at les a datblygiad personol disgyblion, a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus o ran datblygu dulliau cydweithredol ac arloesol o addysgu sydd wrth wraidd ei gwaith.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u dosbarthiadau, sy'n hynod effeithiol o ran datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol. Maent yn cyfleu hoffter am ddysgu a brwdfrydedd drosto ac yn dangos arbenigedd proffesiynol sy'n llwyddiannus o ran sicrhau lefelau uchel o ymgysylltu a chynnydd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn fedrus wrth gynllunio'n ofalus ddilyniannau o weithgareddau sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o alluoedd a diddordebau disgyblion a defnyddiant hyn yn dda i gynllunio tasgau difyr sy'n heriol ac ysgogol. Defnyddiant ystod eang o ddulliau ac adnoddau wedi'u cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn dangos disgwyliadau uchel yn barhaus ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau cynnydd cyson gryf yng ngwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio technegau holi hynod effeithiol i herio a datblygu syniadau disgyblion. Defnyddiant y strategaethau hyn yn arbennig o dda i ddatblygu hyder disgyblion o ran cyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gefnogi annibyniaeth a gwydnwch disgyblion, ac maent yn datblygu eu hyder, eu dawn greadigol a'u gallu yn llwyddiannus iawn i fyfyrio ar eu dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon da yn gyson i brocio a datblygu dealltwriaeth disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau yn gyflym. Maent yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion am eu gwaith a sut y gellir ei wella. Mae llawer o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud gwelliannau addas i'w gwaith yng ngoleuni eu hadborth. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn hynod effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion yn myfyrio'n feddylgar ar beth a sut maent wedi'i ddysgu ac yn gwneud gwelliannau sylweddol i'w gwaith.

Mae dulliau creadigol ac effeithiol o gynllunio'r cwricwlwm yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae cwricwlwm 'iLearn' sy'n arloesol, yn uchelgeisiol ac wedi'i gynllunio'n ofalus yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a heriol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3. Mae'n effeithiol o ran helpu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr myfyriol, hyderus ac annibynnol. Mae'r ysgol, trwy ei dull 'tîm ymchwil' arloesol, yn adolygu ac arfarnu'r cwricwlwm yn barhaus. Mae hyn yn sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu'n llwyddiannus i gyd-fynd â diddordebau, uchelgeisiau a galluoedd disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae disgyblion yn dewis o blith ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae'r rhaglen gyfoethogi helaeth yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau cyflogadwyedd a medrau bywyd pwysig. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau hynod fuddiol fel 'glanhau traethau', hunanamddiffyn trwy jujitsu a sesiynau ar fân waith atgyweirio a chynllunio mewnol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr, gan gynnwys clybiau, gweithgareddau chwaraeon a theithiau dramor ac yn lleol. Mae gan y gweithgareddau hyn ran bwysig yn natblygiad personol a chymdeithasol disgyblion.

Er enghraifft, mae'r daith '24 awr yn y gwyllt' yn herio disgyblion i ymgymryd â gweithgareddau grŵp heriol, myfyrio ar eu profiadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol wedi bod yn hynod lwyddiannus yn rhoi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith. Mae llawer o gyfleoedd perthnasol ac wedi'u cydlynu'n dda ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu ac atgyfnerthu eu medrau. Yn aml, caiff gweithgareddau estynedig eu trefnu'n ofalus fel eu bod yn integreiddio datblygu sawl medr gwahanol trwy gyfres o dasgau a gynlluniwyd yn ystyriol. Mae gan yr ysgol systemau sefydledig ar waith i nodi disgyblion â medrau gwan, ac mae'n cynllunio ymyriadau effeithiol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i gefnogi ac ymestyn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Mae llawer o feysydd pwnc yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â ffocws lleol cryf, er enghraifft astudio adfywio Abertawe a'r ffordd y cafodd y ddinas ei heffeithio gan y Blits. Rhoddir amlygrwydd i'r Gymraeg ac fe gaiff ei dathlu'n weladwy o gwmpas yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio siaradwyr Cymraeg rhugl i fod yn diwtoriaid dosbarth Blwyddyn 7, sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau iaith a ddatblygwyd yn yr ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus yn creu uchelgais uchel ac ethos cynhwysol sy'n seiliedig ar weledigaeth 'Dysg, Dawn, Daioni'. Mae disgwyliadau uchel a phwysigrwydd parch a goddefgarwch yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Mae ymroddiad cryf pob un o'r staff i gefnogi lles disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at lefelau rhagorol o les a datblygiad personol, ac at y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr i fonitro cynnydd academaidd a lles disgyblion unigol. Mae hyn yn helpu'r ysgol i adnabod a mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw rwystrau rhag cynnydd. Mae rhaglenni penodol ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol, fel y rheiny i'w helpu i reoli eu hemosiynau neu wella'u hunan-barch, yn hynod effeithiol o ran helpu'r disgyblion hyn i ddod o hyd i atebion i'w heriau personol. Mae tîm hynod ymroddgar o weithwyr arweiniad bugeiliol, anogwyr dysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu ystod eang o gymorth effeithiol ac wedi'i gydlynu'n ofalus ar gyfer disgyblion unigol. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi'n gryf gan bartneriaethau ag ystod eang o asiantaethau allanol, gan gynnwys y gwasanaeth cymorth i leiafrifoedd ethnig a'r heddlu cymunedol. Mae'r ystod gynhwysfawr hon o gymorth yn hynod lwyddiannus o ran sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu a chyflawni'n dda.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod gryf yn yr ysgol. Mae'r broses 'adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' yn galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth teilwredig i helpu'r disgyblion hyn mewn gwersi a thrwy ystod eang o ymyriadau wedi'u targedu'n ofalus. Mae'r ysgol yn monitro effaith ei chymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn agos ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn ymatebol i anghenion y disgyblion hyn. Mae'n cefnogi

dilyniant y disgyblion i'r chweched dosbarth, i addysg bellach ac i gyflogaeth neu hyfforddiant yn llwyddiannus iawn.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol, sef Llwybr Olchfa at Fywyd Oedolyn (OPAL), yn hynod effeithiol o ran hyrwyddo dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion ac o ran datblygu eu medrau cymdeithasol. Caiff y rhaglen hon ei chefnogi'n dda gan wasanaethau, siaradwyr allanol a chyfleoedd i ddisgyblion weithio gyda'r gymuned ehangach. Mae cwricwlwm 'iLearn' yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am, a myfyrio ar, ystod eang o faterion moesegol, lleol a byd-eang. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus yn annog disgyblion i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol a'r gymuned leol. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol, fel y cyngor ysgol a grwpiau polisi eraill sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion, fel Bwrdd Cynghori'r Ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cynnig cymorth gwerthfawr â llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion iau ac mae grŵp 'CHAT' yn sicrhau datblygiad personol buddiol disgyblion trwy eu hyfforddi i gynnig cymorth cymdeithasol ac emosiynol i'w cyfoedion.

Mae dulliau hynod effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol wedi galluogi'r ysgol i ddatblygu ei disgyblion i fod yn ddysgwyr brwdfrydig, goddefgar a pharchus. Mae ei defnydd arloesol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i ddarparu fframwaith ar gyfer yr agwedd hon ar ei darpariaeth yn llwyddiannus o ran helpu disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod pobl yn gwrando arnynt a'u parchu. Mae adnodd 'Newid' yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer disgyblion â phroblemau ymddygiadol, sy'n helpu'r disgyblion hyn i gael eu hailintegreiddio mewn addysg prif ffrwd lle bo'n briodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth, gyda chymorth medrus gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, wedi darparu arweinyddiaeth gyson gref ac ysbrydoledig dros gyfnod sylweddol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau deilliannau rhagorol ar gyfer disgyblion a datblygu darpariaeth hynod effeithiol ac arloesol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ymrwymiad brwd i sicrhau safonau rhagorol a lefelau lles uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion. Caiff y weledigaeth hon ei deall yn dda gan bob adran o gymuned yr ysgol ac mae'n treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr wedi sefydlu ethos cryf o gydweithio, myfyrio ac arloesedd. Mae hyn wedi eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth fanwl a chywir o berfformiad yr ysgol a chymryd camau pendant ac effeithiol i ysgogi gwelliant.

Caiff rolau a chyfrifoldebau eu dosbarthu'n ofalus a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol ac yn gwneud y defnydd gorau o fedrau a diddordebau staff unigol. Ceir diwylliant sefydledig o fyfyrio ac ymchwil, sy'n helpu staff i arfarnu eu harfer a nodi sut gallant wneud gwelliannau. Caiff dawn greadigol ac arloesedd eu hannog a'u cefnogi'n gryf gan arweinwyr. Mae hyn yn rhoi hyder i staff ddatblygu dulliau newydd a mwy llwyddiannus o addysgu a chefnogi lles disgyblion.

Caiff cyfrifoldebau arwain eu cyflawni â chadernid a thrylwyredd ar bob lefel. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain, staff a disgyblion. Mae prosesau rheoli llinell yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau, gwella lles disgyblion a darparu cydbwysedd addas o her a chymorth ar gyfer pob un o'r staff. Defnyddir trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol i ddwyn staff i gyfrif ac i nodi eu hanghenion datblygiad proffesiynol. Caiff staff eu hannog i ymgymryd ag ymchwil addysgol i gefnogi cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu addysgu effeithiol a gwelliannau i'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ddysgu proffesiynol. Mae'n darparu ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi'u cydlynu'n dda ar gyfer pob un o'r staff. Caiff y gweithgareddau hyn eu cefnogi'n effeithiol gan bartneriaethau â darparwyr eraill, gan gynnwys prifysgolion lleol. Nodwedd nodedig o arfer yr ysgol yw gwaith y 'tîm ymchwil'. Mae'r grŵp hwn yn cynnal arfarniadau rheolaidd a thrylwyr o addysgu a dysgu ar draws yr ysgol ac yn nodi'n glir sut gellir gwella agweddau penodol ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwaith ymchwil hwn i nodi anghenion hyfforddi penodol a datblygu ei chwricwlwm ymhellach.

Mae gan staff ar bob lefel ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol. Mae'r trefniadau ar gyfer arfarnu tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad, yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n gyson ar effaith addysgu ar gynnydd a datblygiad medrau disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir a manwl o'r cryfderau penodol a'r meysydd penodol i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Defnyddiant y ddealltwriaeth hon i osod targedau gwella sy'n uchelgeisiol ac yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw agos iawn i arfarnu ei chwricwlwm 'iLearn', sy'n cynnwys gofyn barn disgyblion trwy 'hyrwyddwyr disgyblion'. Mae hyn yn ei helpu i adolygu ac addasu'r ddarpariaeth hon yn rheolaidd fel ei bod yn bodloni anghenion disgyblion yn fwy effeithiol ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig o ran diwygio'r cwricwlwm a datblygu medrau. Fel Ysgol Arloesi, mae wedi gweithio'n helaeth ag ysgolion eraill yn lleol a ledled Cymru i rannu'r datblygiadau hyn.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol iawn. Mae wedi creu amgylchedd dysgu cadarnhaol, ysgogol a chadarn ac yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adeiladau sydd ar gael. Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn fanwl, ac yn sicrhau bod yr holl wariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid y grant datblygu disgyblion yn dda i gefnogi lles a chyflawniad disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae gan lywodraethwyr ran gref mewn gosod gweledigaeth strategol yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau gwella, ac maent yn cynnig cymorth a her werthfawr i arweinwyr.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2018